Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

WCVA
CGGC

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Gwirfoddoli Cymru

Cylch Grantiau Strategol 2 - 2025-28

CONTENTS

NOD Y GRANT 3

AMCANION Y GRANT 3

DULL NEWYDD O WIRFODDOLI YNG NGHYMRU 4

MEINI PRAWF CYMHWYSEDD 8

YR HYN NA ELLIR EI GYLLIDO 10

Y BROSES CYFLWYNO CAIS 10

COFRESTRU GYDA MAP 11

CYFLWYNO CAIS – PROSES GWIRIO CYMHWYSEDD 11

PA DDOGFENNAU Y MAE ANGEN I MI EU CYFLWYNO? 13

BETH FYDD YN CAEL EI OFYN FEL RHAN O'R FFURFLEN GAIS 14

DYDDIADAU PWYSIG 16

ATODIAD 1 17

NOD Y GRANT

Bydd y gronfa hon yn galluogi nifer fach (tua 5-10) o fuddsoddiadau strategol (gyda'r potensial i gyflwyno buddion gwirfoddoli ar raddfa) i ddatblygu ac adeiladu ar ddulliau/mentrau gwirfoddoli newydd neu well ledled Cymru. Galluogi i syniadau neu brosiectau gael cefnogaeth ar bob pwynt o'u cylchred bywyd o'r "cysyniad" i uwchraddio ac ymwreiddio modelau profedig.

AMCANION Y GRANT

Datgloi potensial strategol gwirfoddoli yn ystod y cyfnod mwy hirdymor:

- Adnabod ac edrych ar yr angen strategol a chyfleoedd i gael gwared ar rwystrau i wirfoddoli (ar raddfa);
- Cryfhau neu edrych ar bartneriaethau o fewn a rhwng y trydydd sector, y sector preifat a'r sector cyhoeddus;
- Cefnogi'r gwaith o uwchraddio modelau cyflawni ac isadeiledd strategol a mudiadau gwirfoddolwyr er mwyn ymwreiddio arferion da sy'n dod i'r amlwg;
- Dysgu'n drylwyr am gydraddoldeb a chynhwysiant ym maes gwirfoddoli a sut y mae hyn yn effeithio ar gymunedau a'u lefelau ymgysylltu;
- Hybu buddsoddi ariannol ac anariannol pellach.
- Creu cronfa ddysgu i'w rhannu â Chymuned Ymarfer Gwirfoddoli gynyddol Cymru.

Ers ei ddechreuad, mae'r rheini sydd wedi cael dyfarniadau Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru (VWSG) wedi cynhyrchu gwaith ymchwil ac adnoddau sy'n symud arferion gwirfoddoli ymlaen i Gymru drwy gydweithrediad. I ddysgu mwy am y cyflawniadau hyd yma, ewch i'r **Hwb Gwybodaeth**.

Croesawir ceisiadau grant ar gyfer prosiectau hyd at 18 mis sy'n werth rhwng £50,000 a £100,000.

Croesawir cynigion o safon uchel o'r meysydd blaenoriaethol canlynol:

- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Addysg a phobl ifanc
- Argyfwng yr amgylchedd/hinsawdd

- Y Celfyddydau/diwylliant/chwaraeon
- Y Gymraeg/cymunedau

DULL NEWYDD O WIRFODDOLI YNG NGHYMRU

Rôl y Grantiau Strategol o'i fewn:

Ym mis Gorffennaf 2025, lansiodd Llywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) Ddull newydd, hirdymor a chydgysylltiedig o Wirfoddoli yng Nghymru (gallwch ddarllen mwy am y Dull Newydd **yma**). Mae'r Dull yn cynnwys Gweledigaeth ar gyfer Gwirfoddoli yng Nghymru lle mae:

- Gwirfoddoli yn 'ffordd o fyw' yng Nghymru.
- Lles unigolion a chymunedau yn cael ei wella.
- Gwirfoddoli yn ddiogel, yn gynaliadwy ac yn cael ei gefnogi.
- Gwirfoddoli'n gynhwysol ac yn adlewyrchu cymdeithas, diwylliant ac iaith Cymru.

Mae'r Dull hefyd yn cynnwys fframwaith i'n helpu ni i gyd i wireddu'r weledigaeth hon gyda'n gilydd drwy annog a chefnogi unrhyw un sy'n gysylltiedig â gwirfoddoli i feddwl am sut gallant gyfrannu tuag at saith "Galluogwr" sy'n allweddol at greu amgylchedd diogel, cefnogol a chynaliadwy i'n gwirfoddolwyr.

1. Arweinyddiaeth benderfynol

2. Cynlluniau cadarn wedi'u seilio ar resymau, data a thystiolaeth gadarn

3. Amcanion clir ac ymarferol wedi'u hanelu at gamau gweithredu penodol

4. Pobl sydd â'r cyllidebau a'r adnoddau angenrheidiol er mwyn gweithredu

5. Cynlluniau a chamau gweithredu yn seiliedig ar anghenion gwirioneddol gwirfoddolwyr

6. Cynlluniau a chamau gweithredu sy'n cyd-fynd â'n cymdeithas, ein diwylliant a'n hiaith

7. Ymgysylltu â grwpiau allweddol, ac yn enwedig pobl ifanc

Sut rydym eisiau defnyddio'r Galluogwyr hyn yn y grant strategol hwn:

Mae'r Dull Newydd o Wirfoddoli yn amlinellu cyfres o Alluogwyr sydd wedi'u dylunio i gynorthwyo mudiadau i gryfhau'r amgylchedd gwirfoddoli yng Nghymru. Fel rhan o broses VWSG, dylech ddefnyddio'r Galluogwyr a'r Matrics Cynllunio cysylltiedig i lywio'r gwaith o gynllunio, cyflawni, monitro a myfyrio ar eich prosiect, i adrodd arno a chyflawni cynlluniau yn y dyfodol.

Gobeithir y bydd hwn yn cyflwyno cydbwysedd priodol rhwng rhoi strwythur i'ch helpu chi i fyfyrio ar eich prosiect, nodi cyfleoedd i wella a chefnogi dysgu clir ac ystyrlon drwy holl gyfnod y grant a thu hwnt a chydnabod y rhyddid sydd ei angen arnoch i ddatblygu eich syniadau unigryw.

Er mwyn cymhwyso'r Galluogwyr, rydym wedi creu Matrics Cynllunio (Atodiad 1) – gallwch chi ddefnyddio hwn i nodi i ba raddau mae eich prosiect yn perfformio yn erbyn pob Galluogydd – sy'n amrywio o 'heb ei ddatblygu digon' i 'effeithiol iawn'.

Beth mae'r Matrics Cynllunio yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer:

- Gosod pwynt dechrau ar gyfer eich prosiect
- Cefnogi trafodaethau â staff, partneriaid a swyddogion CGGC
- Nodi meysydd blaenoriaethol i'w datblygu
- Cefnogi monitro ac adrodd myfyrgar

Beth nad yw'r Matrics Cynllunio yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer:

- NID yw'r matrics yn pennu a yw grant yn cael ei gymeradwyo – Nid oes angen i chi ddangos bod eich prosiect yn sgorio'n uchel ar draws yr holl Alluogwyr – os yw, nid oes angen y grant arnoch. Bydd gan bob prosiect gryfderau mewn rhai meysydd ac anghenion datblygu mewn eraill.

- NID yw'r matrics yn asesu neu'n sgorio eich mudiad (gallwch ei ddefnyddio at y diben hwn os dymunwch ond nid dyma ei brif ddefnydd yma)
- NID yw'r matrics yn cael ei ddefnyddio i gymharu mudiadau

Rhaid i'r Matrics Cynllunio gael ei gwblhau a'i gyflwyno gyda'ch cais drwy MAP, a rhaid cyfeirio ato yn naratif eich cais.

Sut i ddefnyddio'r Galluogwyr i'ch helpu ar bob cam o broses VWSG:

1. Pan rydych chi'n cynllunio eich prosiect, gallwch ddefnyddio'r Galluogwyr i:

- Strwythuro trafodaethau â phartneriaid
- Nodi bylchau neu risgiau'n gynnar
- Egluro anghenion gwirfoddolwyr
- Nodi lle gallai fod angen arweinyddiaeth, partneriaethau neu adnoddau

Bydd hyn yn cyfrannu at ganolbwynt eich cynllun prosiect cychwynnol.

2. Wrth ddatblygu eich cais

Anogwn chi i ddefnyddio'r Galluogwyr i helpu i strwythuro trafodaethau â'r aelodau staff CGGC sydd wedi eu penodi i'ch helpu chi, ac i helpu i lywio eich ffordd o feddwl a naratif eich prosiect. Gallai hyn gynnwys:

- Disgrifio'r broblem y mae eich prosiect yn gobeithio mynd i'r afael â hi gan ddefnyddio'r fframwaith Galluogwyr
- Nodi pa Alluogwyr y mae eich prosiect yn debygol o'u cryfhau (efallai bod trefn resymegol oherwydd dibyniaethau ac ati) a defnyddio hyn i helpu i osod amcanion prosiect neu greu Cynlluniau Gweithredu ar gyfer y prosiect, a meddwl am sut byddwch chi'n monitro'r cynnydd yn eu herbyn.
- Defnyddio'r matrics i fyfyrio'n onest ar yr heriau a'r cyfleoedd presennol

Dylai hyn helpu i gryfhau'r eglurder strategol heb gyfyngu ar eich creadigrwydd na'ch dull gweithredu.

3. Wrth fonitro ac adolygu a myfyrio ar y prosiect ganol ffordd

Wrth gyflawni, gall y Galluogwyr eich paratoi chi i:

- Fyfyrio (gyda phartneriaid) ar yr hyn sy'n newid
- Nodi'r cynnydd ar draws meysydd, amcanion a chanlyniadau gwahanol
- Ystyried profiad y gwirfoddolwyr
- Arwain sgyrsiau â swyddogion CGGC mewn adroddiadau chwech misol

Dylai hyn helpu i annog dysgu ac adroddiadau meintiol a naratif.

4. Wrth lunio'r adroddiadau prosiect terfynol a meddwl am beth sy'n dod nesaf

Ar ddiwedd eich prosiect, gall ailedrych ar y matrics roi arweiniad i chi o ran:

- Disgrifio beth sydd wedi gwella
- Amlygu bylchau sydd ar ôl
- Nodi cyfleoedd i ddod
- Rhannu dysgu mewn modd cyson ac effeithiol

Dylai hyn gefnogi eich cynlluniau gwaddol a sicrhau bod eich prosiect yn cyfrannu at ddysgu a rennir ledled Cymru.

Yn fyr, dylid edrych ar y Galluogwyr a'r Matrics Cynllunio fel adnoddau hyblyg a chefnogol (nid cyfarwyddiadau) sydd wedi'u dylunio i:

- Gryfhau eich prosiect
- Cynnig eglurder a strwythur
- Annog cynllunio ystyriol
- Gwella monitro a gwerthuso
- Cysylltu eich gwaith â'r dull newydd o wirfoddoli yng Nghymru

Defnyddiwch nhw yn y modd sy'n gweddu orau â dysgu, datblygiad ac effaith eich prosiect.

Rydym yn gwerthfawrogi bod hyn yn ffordd newydd o weithio ac rydym yn awyddus i sicrhau bod **cymorth ar gael** i chi ddefnyddio'r Galluogwyr yn effeithiol, gan gynnwys:

- Bydd fideo esboniadol byr yn amlinellu sut mae'r Galluogwyr a'r Matrics yn gweithio (Ar gael yma).
- Mae swyddogion CGGC wedi'u briffio i'ch cefnogi drwy'r holl broses.
- Bydd aseswyr yn defnyddio'r Galluogwyr i strwythuro adborth – nid i sgorio ceisiadau.

Byddwn yn gofyn am eich adborth er mwyn gwella'r gefnogaeth hon yn barhaus.

MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

- Cyn cyflwyno eich cais, **rhaid** i chi siarad ag aelod penodol o staff CGGC neu aelod penodol o Dîm Cymorth y Trydydd Sector yn Llywodraeth Cymru (gweler isod). Bydd hyn yn sicrhau bod eich gweithgaredd yn cyd-fynd â nodau'r grant. Fel rhan o'r cais, bydd angen i chi roi enw'r aelod staff rydych chi wedi cysylltu ag ef. Ni fydd ceisiadau lle na chysylltwyd ag aelod staff o flaen llaw yn cael eu cyflwyno gerbron y panel.

  Cysylltwch â'r aelod tîm y gallech fod wedi trafod eich prosiect ag ef yn flaenorol:

Aelod staff	Teitl swydd	E-bost
Sian Baker Maurice	Pennaeth Grantiau ac Incwm	sbakermaurice@wcva.cymru
Maggie Smith	Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Gwirfoddolwyr	msmith@wcva.cymru
Felicitie Walls	Rheolwr Gwirfoddoli	fwalls@wcva.cymru

Lynne Connolly	Rheolwr Helplu Cymru	lconnolly@wcva.cymru
Llywodraeth Cymru	Tîm Cymorth y Trydydd Sector	thirdsectorqueries@llyw.cymru

- Mae eich mudiad yn canolbwyntio ar gymryd y camau nesaf gyda'ch gweithgaredd gwirfoddoli strategol, yn ceisio adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd hyd yma i werthuso a chryfhau eich dull gweithredu ymhellach. E.e. cynyddu graddfa, ehangu partneriaethau, egluro arweinyddiaeth ac atebolrwydd neu adeiladu seilwaith cymorth cryfach.

- Mae gan eich mudiad incwm blynyddol o fwy na £250,000 (gall hyn fod yn gyfartalog dros y tair blynedd ddiwethaf) ac nid yw lefel y grant y cyflwynir cais amdano yn fwy nag 20% o'ch incwm blynyddol.

- Disgwylir i'r ymgeiswyr edrych ar y gwaith ymchwil a'r adnoddau sydd wedi'u cynhyrchu hyd yma drwy Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau bod y gwaith yn newydd neu'n gwella rhywbeth. Gellir gweld rhai o'r rhain yma (Hwb Gwybodaeth – chwiliwch am 'Strategol')

- Rydych chi'n fudiad corfforedig sydd wedi bod yn weithredol am o leiaf dwy flynedd

- Gallwch chi ddarparu llythyron cefnogi gan bartneriaid posibl/partneriaid presennol a/neu lythyron cefnogi gan fyrddau/gweithgorau arwain/strategol/partneriaeth berthnasol.

- Croesawir ceisiadau gan bob sector.

- Anogir ceisiadau gan bartneriaethau ond nid oes angen i brosiectau fod yn rhai cydweithredol o reidrwydd.

- Y gallu i gyflenwi'r prosiect o fewn yr amserlen benodedig.

- Gall Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) fod yn bartneriaid penodol mewn ceisiadau, ond ni allant fod yn brif ymgeisydd.

- Gall derbynyddion blaenorol wneud cais am y cylch hwn, ond ar gyfer gweithgareddau sydd ar y cam nesaf neu'n adeiladu ar y gwaith a gyllidwyd yn flaenorol; neu ar gyfer gweithgarwch hollol newydd.

YR HYN NA ELLIR EI GYLLIDO

- Ni fydd grantiau yn cael eu dyfarnu ar ôl yr achos, h.y. am gostau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn y llythyr cynnig grant a'r telerau ac amodau wedi'u llofnodi.

- Pan fydd grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau penodol, disgwylir i'r rhain cael eu defnyddio lle'n bosibl.

- Proselyteiddio gweithgareddau.

Y BROSES CYFLWYNO CAIS

Mae'r broses cyflwyno cais wedi'i rhannu'n ddau gam ar gyfer ymgeiswyr.

Cam 1: Cais

Yn rhan gyntaf y ffurflen cais, byddwch chi'n rhoi manylion eich mudiad, gan gynnwys polisïau, cyfrifon diweddaraf, a manylion cyswllt.

Byddwch chi'n defnyddio gweddill y ffurflen gais i ddisgrifio'r prosiect yn fanwl.

Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, bydd y tîm Grantiau yn adolygu'r cais yn erbyn y meini prawf cymhwysedd ac yn asesu atebion yn erbyn nodau ac amcanion y grant. Efallai y bydd y tîm yn cysylltu â chi i gael manylion ychwanegol, gwybodaeth/dogfennau ategol os ydynt ar goll.

Bydd ansawdd y ceisiadau yn cael eu gwirio cyn cyflwyno'r argymhellion terfynol i Banel Gwirfoddoli Cymru.

Cam 2: Panel Gwirfoddoli Cymru *

Bydd yr holl geisiadau sy'n pasio'r gwiriadau cymhwysedd yn cael eu hatgyfeirio i Banel Gwirfoddoli Cymru. Bydd y Panel yn penderfynu pa geisiadau i'w cyllido. Gall hefyd wneud argymhellion am gyllid rhannol pan fo'n briodol/yn unol â'r cyllid sydd ar gael.

Unwaith y bydd y Cadeirydd wedi cymeradwyo'r penderfyniad terfynol, bydd llythyrau canlyniad yn cael eu hanfon at bob ymgeisydd.

* **Panel Prosiect Gwirfoddoli Cymru** sy'n darparu'r cyfeiriad strategol a'r trosolwg o'r cynllun grant. Mae'n cefnogi'r gwaith o arfarnu a dyfarnu grantiau ac yn adolygu perfformiad prosiectau. Mae'r Panel yn cynnwys aelodau o Banel CGGC ac aelodau a bennwyd o'r gymuned gwirfoddoli yng Nghymru.

COFRESTRU GYDA MAP

Er mwyn gwneud cais am Grantiau Gwirfoddoli Cymru, bydd angen i chi gofrestru gyda Phorth Ymgeisio Amlddiben CGGC (MAP). Os ydych wedi cofrestru gyda MAP o'r blaen, gallwch fewngofnodi drwy nodi eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair ar y dudalen hafan.

Gall mudiadau gofrestru trwy fynd i'r wefan: map.wcva.cymru

Unwaith y byddwch wedi cofrestru gyda MAP, byddwch chi'n gallu ymgeisio am unrhyw gyfleoedd cyllido a weinyddir gan CGGC.

CYFLWYNO CAIS – PROSES GWIRIO CYMHWYSEDD

Dylech chi adolygu'r wybodaeth ganlynol cyn cyflwyno cais am y cylch grant. Dim ond ceisiadau gan fudiadau sy'n gallu dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf sylfaenol fydd yn symud i'r asesiad llawn:

1) Sicrhewch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf sylfaenol:

   - Corfforedig ers o leiaf 2 flynedd
   - Incwm o fwy na £250,000 (cyfanswm cyfartalog dros y 3 blwyddyn ariannol ddiwethaf lle y bo'n berthnasol) ac nid yw lefel y grant y gofynnir amdano yn fwy nag 20% o'ch incwm blynyddol
   - Bodloni amcanion y gronfa

2) Darparu tystiolaeth bod y mudiad yn canolbwyntio ar y camau nesaf o'u gweithgareddau gwirfoddoli strategol, yn ceisio cynyddu graddfa, partneriaethau, strategaeth, a threfniadau. Gallai enghreifftiau o **dystiolaeth** y mae'n rhaid iddi gefnogi'r pwrpas a'r cynllun a ddisgrifir gynnwys:

   - Strategaeth wirfoddoli
   - Strategaeth 5 mlynedd y mudiad neu ei gynllun blynyddol
   - Cofnodion cyfarfodydd uwch-reoli
   - Dogfennau cynllunio / cofnodion / nodiadau / cytundebau â phartneriaid
   - Cyfeirio at faes gweithgarwch mewn strategaethau partneriaeth lleol/rhanbarthol e.e. Byrddau Partneriaeth Lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Fforymau Gwydnwch Lleol ac ati

3) Mae'n rhaid i unrhyw bartneriaid a nodwyd ddarparu llythyr o gefnogaeth/fwriad. Mae'n rhaid i lythyron o gefnogaeth gysylltu'n ôl yn glir i'r gweithgaredd a ddisgrifiwyd ac nid cefnogi gweithgareddau'r mudiad yn gyffredinol.

4) Os nad yw partneriaid penodol wedi'u nodi hyd yma gan mai nod y gweithgaredd hwn yw "Adnabod yr angen strategol ac archwilio cyfleodd gwirfoddoli newydd" bydd angen i fyrddau/gweithgorau arwain / strategol / partneriaethau ddarparu llythyron o gefnogaeth/fwriad i ymgysylltu. E.e. Byrddau Sector Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Iechyd, Fforymau Gwydnwch Lleol. Mae'n rhaid i'r rhain gysylltu'n ôl yn benodol i'r gweithgaredd a ddisgrifiwyd ac nid llythyr o gefnogaeth yn gyffredinol ar gyfer gweithgareddau cyffredinol y mudiad.

5) Sylwer: Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sy'n gweithio yn y meysydd blaenoriaethol a nodwyd (wedi'i rhestru ar dudalen 3).

PA DDOGFENNAU Y MAE ANGEN I MI EU CYFLWYNO?

Bydd y cais yn gofyn i chi gyflwyno dogfennau ar-lein ar ffurf PDF wedi'i sganio.

Bydd angen i chi gyflwyno dogfennau sy'n benodol i'ch mudiad, ond os nad oes gan eich mudiad fersiynau terfynol o unrhyw un o'r polisïau ar hyn o bryd, gallwch gysylltu â'ch CVC lleol am gymorth (gellir dod o hyd i'r cyfeiriadur yma). Mae'n bosibl na fydd yn gwneud eich cais yn anghymwys, ond byddem yn disgwyl gweld bod polisïau'n cael eu datblygu cyn y dyfarniad:

- Polisi Gwirfoddoli
- Dogfen lywodraethu
- Polisi Cyfle Cyfartal
- Polisi Amgylcheddol
- Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi Diogelu Data (sy'n dangos cydymffurfiad â'r GDPR)
- Polisi Diogelu (Rhaid i bolisïau diogelu fod yn addas i'r diben. Os gwelir wrth adolygu fod angen diwygiadau/addasiadau, byddwch chi'n cael gwybod. Ni fydd unrhyw gais yn cael ei argymell i'r panel heb bolisi Diogelu digonol). Gweler y canllawiau: https://thirdsectorsupport.wales/cy/adnoddau/polisi-diogelu-canllawiau/
- Datganiad banc diweddaraf (o fewn y 3 mis diwethaf)
- Set ddiweddaraf o gyfrifon archwiliedig llawn
- Set ddiweddaraf o gyfrifon drafft (os yw'r cyfrifon archwiliedig yn hynach na 12 mis oed NEU gyfrifon rheoli (os yw'r cyfrifon archwiliedig yn hynach na 12 mis oed)
- Proffil ariannol prosiect (bydd angen cwblhau hwn ar dempled gorfodol CGGC)
- Matrics Cynllunio – Atodiad 1 (bydd angen cwblhau hwn ar dempled gorfodol CGGC)

BETH FYDD YN CAEL EI OFYN FEL RHAN O'R FFURFLEN GAIS

(mae'n rhaid cyflwyno eich cais drwy MAP):

1) Bydd angen i bob cais ddarparu cynllun prosiect sy'n amlinellu diben y cais am gyllid a sut y caiff ei gyflawni, dylai hyn gynnwys:

   - Yr angen strategol am y prosiect
   - Nod(au) ac amcanion y prosiect
   - Sut y caiff nod a'r amcanion eu cyflawni; sut y caiff hyn ei fesur er mwyn dangos hyn
   - Disgrifiwch ba adnoddau a ddefnyddir ar gyfer y prosiect hwn – dylid osgoi creu rolau dros dro anghynaladwy lle y bo'n bosibl
   - Prif risgiau a mesurau lliniaru
   - Amserlen fras o weithgareddau

   Gofynnir i chi i ddefnyddio'r Galluogwyr a'r Matrics Cynllunio (Atodiad 1) fel y disgrifiwyd yn y manylion uchod er mwyn **meddwl am naratif eich cynllun prosiect a'i strwythuro**. Cofiwch, mae angen i chi ddangos beth fydd effaith eich gweithgarwch;

   - Canlyniadau ac effaith ddisgwyliedig o fewn oes y prosiect a thu hwnt.
   - Os ydych wedi cyflawni eich nodau ac amcanion, beth mae hyn yn ei olygu i'ch buddiolwyr a rhanddeiliaid allweddol yn yr hirdymor?
   - Y potensial i rannu neu uwchraddio arferion da i'w defnyddio'n ehangach ledled Cymru.
   - Sut bydd y gwerthusiad o'r effaith yn cael ei wneud?
   - Sut bydd y gwerthusiad o'r effaith yn hysbysu eich camau nesaf?

2) Dylech hefyd ddangos pwy yw eich partneriaid/rhanddeiliaid ar gyfer y gweithgarwch hwn a'r llywodraethu sydd wrth ei wraidd, er enghraifft:

   Meysydd posibl i'w hystyried:

   - Atebolrwydd ac arweinyddiaeth – sut y caiff y prosiect ei arwain a'i lywodraethu ar lefel strategol a/neu lefel weithredol?

- Os ydych wedi cyflawni eich nodau ac amcanion, beth mae hyn yn ei olygu i'ch buddiolwyr a rhanddeiliaid allweddol yn yr hirdymor?
- A yw'r partneriaethau strategol/gweithredol hyn yn rhai a hen sefydlwyd neu a yw'r cais wedi'i gefnogi gan bartneriaid posibl?
- Rolau a chyfrifoldebau penodol pob partner gan gynnwys y prif ymgeisydd - rhowch ystyriaeth i'r systemau sydd mewn lle, gan gynnwys cytundebau partneriaeth a mewnbwn allweddol gan bob partner

3) Beth fydd effaith eich gweithgaredd?

   Meysydd posibl i'w hystyried:

- Canlyniadau ac effaith ddisgwyliedig yn ystod oes y prosiect a thu hwnt.
- Os bydd eich nod a'ch amcanion yn cael eu cyflawni, beth fydd hyn yn ei olygu i'ch buddiolwyr a phrif randdeiliaid yn yr hirdymor?
- Y potensial i rannu neu uwchraddio arferion da i'w defnyddio'n ehangach ledled Cymru.
- Sut bydd y gwerthusiad o'r effaith yn cael ei wneud?
- Sut bydd y gwerthusiad o'r effaith yn hysbysu eich camau nesaf?

4) Cyllideb

   Pethau i'w hystyried:

- Mae'r grant hwn yn bennaf ar gyfer costau refeniw ond gellir ystyried eitemau bach ar gyfer costau cyfalaf (uchafswm o £5,000) os ydynt yn hanfodol er mwyn cyflenwi'r prosiect
- Mae'r gyllideb yn cysylltu'n ôl yn glir i'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd
- Dylai costau fod yn gymesur â graddfa'r gweithgaredd
- Dylid rhoi ystyriaeth gymesur i werthuso ac i rannu gwersi a ddysgwyd. Dylid cynnal unrhyw weithgaredd monitro a gwerthuso drwy gydol oes y prosiect a dylid cyflwyno canfyddiadau ymhen 3 mis o pan fydd y prosiect yn dod i ben.
- Cofiwch ystyried y gost o gyfieithu'r gwerthusiad terfynol a/neu'r adnoddau a gynhyrchir i'r Gymraeg

DYDDIADAU PWYSIG

Dyddiad lansio: 2 Mawrth 2026

Dyddiad cau: 22 Mai 2026

Canlyniad y cais am grant: Gorffennaf 2026

Dyddiad dechrau prosiect cynharaf: 1 Awst 2026

Dyddiad dechrau prosiect diweddaraf: 1 Hydref 2026

ATODIAD 1

Matrics Cynllunio

Asesu holl faes gweithgaredd neu ran benodol yn erbyn y galluogwyr allweddol

Galluogydd / Amod Angenrheidiol	1 Heb ei ddatblygu digon	2	3 Eithaf effeithiol	4	5 Effeithiol iawn
Arweinyddiaeth benderfynol					
Cynlluniau cadarn wedi'u seilio ar resymau					
Amcanion clir ac ymarferol wedi'u hanelu at gamau gweithredu penodol					
Pobl sydd â'r cyllidebau a'r adnoddau angenrheidiol er mwyn gweithredu					
Cynlluniau a chamau gweithredu yn seiliedig ar anghenion gwirioneddol gwirfoddolwyr					
Cynlluniau a chamau gweithredu sy'n cyd-fynd â'n cymdeithas, ein diwylliant a'n hiaith					
Cynlluniau a chamau gweithredu sy'n cyd-fynd â'n cymdeithas, ein diwylliant a'n hiaith					

Rhaid i'r sgorau a roddir ar y Matrics Cynllunio hwn gael sylw o fewn eich cynllun prosiect (drwy MAP). Sut ddaethoch chi at y sgôr hon? Sut byddwch yn defnyddio'r galluogwyr i arwain a chyflawni eich prosiect? A sut gellid cynyddu sgorau'r galluogwyr dros oes y prosiect. **Defnyddiwch y galluogwyr i feddwl am naratif eich cynllun prosiect a'i naratif**. Bydd sgorau cynnydd yn cael eu monitro bob cyfnod adrodd chwech misol.